# Sut rŷn ni'n glanhau eich dŵr yfed

Caiff dŵr glaw ei gasglu mewn cronfa ddŵr ac yna mae'n llifo trwy bibellau i un o'n gweithfeydd trin lle mae'n cael ei lanhau. Mae'r broses hon yn troi dŵr glaw yn ddŵr yfed o'r safon uchaf.

## 1 Sgrinio

Dyma'r cam cyntaf yn y broses drin. Mae sgriniau mecanyddol yn tynnu rhai o'r pethau mawr sy'n cael eu cario mewn afonydd a chronfeydd, fel canghennau, brigau, dail ac ati.

## 2 Gloywi

Caiff cemegyn ei ychwanegu at y dŵr er mwyn gwneud i ronynnau bach lynu at ei gilydd. Gyda'i gilydd, mae'r gronynnau bach yn gwneud clystyrau mawr sy'n haws eu tynnu o'r dŵr.

## 3 Hidlo

Rŷn ni'n hidlo'r dŵr trwy haen o dywod a graean. Mae hyn yn cael gwared o unrhyw ronynnau bach sydd ar ôl yn y dŵr.

## 4 Addasu'r pH

Weithiau gall fod angen ychwanegu cemegion i addasu pH y dŵr.

## 5 Diheintio

Yn olaf, rhoddir clorin yn y dŵr i ladd unrhyw facteria sydd ar ôl ynddo.

## 6 Rheoli Ansawdd

Cyn i'r dŵr adael y safle, mae'n cael profion i wneud yn siwr ei fod yn ddigon glân i'w yfed.

## 7 Cronfeydd Gwasanaeth

Ar ôl ei drin, caiff y dŵr ei gadw mewn cronfa wasanaeth yn barod i gael ei ddefnyddio.